

Astudiaeth Achos 3

Hyfforddiant

Canolfan integredig i blant yw Canolfan Blant Cwm Rhyd y Rhosyn sydd ar fin dechrau darparu rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

Mae rheolwr y ganolfan wedi cynnal archwiliad o sgiliau'r staff presennol yn unol â Chanllawiau Strategol Rhaglen Dechrau'n Deg a'u cytundeb lefel gwasanaeth. Canfu fod gan y staff angen dysgu o ran cael teuluoedd i gymryd rhan yn addysg eu plant.

Mae'r rheolwr yn awyddus i sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Dechrau'n Deg, h.y. Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd Dechrau'n Deg, Ymarferwyr Meithrin sy'n gweithio yn y crèche a'r Ymwelwyr Iechyd, yn mabwysiadu dull cyson o gael teuluoedd i gymryd rhan yn addysg a datblygiad eu plant.

Mae'r rheolwr yn teimlo bod y Safon Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) yn y gyfres Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant **SCDCCLD0317 – Ymgysylltu â theuluoedd mewn ffyrdd sy'n eu hannog i ymwneud â gwaith dysgu a datblygu eu plant** yn cwmpasu'r holl elfennau allweddol sydd angen i'w staff eu cyflawni er mwyn gwneud hyn yn effeithiol.

Mae'n gofyn i sefydliad hyfforddi lleol sy'n arbenigo ar ofal plant i gynllunio rhaglen hyfforddi ar gyfer y tîm yn seiliedig ar y SGC hon.

Bydd yr astudiaeth achos hon yn edrych ar ddau brif faes:

- Beth yw'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r datganiadau gwybodaeth a dealltwriaeth y dylid eu cynnwys yn yr hyfforddiant a beth yw'r canlyniadau disgwyliedig (Rhan A)
- Ar ôl darparu'r hyfforddiant, sut y gellir defnyddio'r SGC i sicrhau bod y staff wedi dysgu o'r hyfforddiant ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn eu gwaith (Rhan B)

Rhan A

Mae defnyddio'r SGC i ddatblygu rhaglenni hyfforddi yn rhoi sicrwydd i sefydliadau fod yr hyfforddiant yn berthnasol a threfnus a bod ganddo dargedau dysgu clir i'r rhai sy'n derbyn hyfforddiant. Drwy seilio'r dysgu ar y meini prawf perfformiad, y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol, bydd staff yn gwybod beth mae'r sefydliad yn ei ddisgwyl ganddynt a bydd gan reolwyr ddull o fesur perfformiad a llwyddiant y dysgu.

O ran yr astudiaeth achos hon, gellir rhannu'r meysydd dysgu allweddol i ddau brif faes – yr hyn y dylai'r staff allu ei wneud yn dilyn yr hyfforddiant (1) a beth fyddant yn ei wybod a'i ddeall yn dilyn yr hyfforddiant (2).

(1) Yr hyn y dylai'r staff allu ei wneud yn dilyn yr hyfforddiant

Fel pob SGC mae angen ystyried amrywiaeth eang o feini prawf perfformiad. Gyda'r SGC hon mae yna dri phrif maen prawf cyffredinol sydd angen eu hadlewyrchu:

Cysylltu â theuluoedd ynglŷn â'u disgwyliadau ar gyfer eu plentyn

Annog teuluoedd i fod yn rhan o ddysgu a datblygiad eu plentyn

Adolygu cynnydd plant gyda theuluoedd

O fewn pob un o'r rhain, byddai yna nifer o feini prawf perfformiad allweddol a ddylai gael eu hadlewyrchu yn y cwrs.

Cysylltu â theuluoedd ynglŷn â'u disgwyliadau sydd ganddynt ar gyfer eu plentyn

Cyfathrebu

Dylai'r rhaglen hyfforddi ddarparu gwybodaeth i staff ar sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd agored a chroesawgar a sut i fabwysiadu dull a fydd yn hyrwyddo cynhwysiant. Gallai hyn gynnwys dulliau a thechnegau ar gyfer gwneud hynny a sut i feithrin ymddiriedaeth a chwlmw agosrwydd mewn perthynas. (P1)

Gwrando

Dylai cynnwys y cwrs gwmpasu sgiliau a thechnegau gwrando a galluogi staff i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i wrando ar blant a'u teuluoedd. Byddai hyn yn edrych ar feysydd fel ystyried oedran a galluoedd y plant a pha brofiadau neu deimladau sydd gan eu rhieni/cynhalwyr. (P2-P3)

Gallu cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth

Dylai'r dysgu gwmpasu sut i gydnabod gwerth ac amrywiaeth strwythurau teuluol a sut y gallai'r rhain effeithio ar ddisgwyliadau'r teulu. Dylai hefyd edrych ar sut i annog teuluoedd i gydnabod sgiliau a gallu eu plentyn. Gallai hyn edrych ar feysydd fel gwahaniaethau a disgwyliadau diwylliannol hefyd. (P4-P5)

Darparu cymorth

Yma, gellid edrych ar sut i gefnogi teuluoedd i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ddysgu a datblygiad plant a sut i weithio gydag eraill i greu amgylchedd cefnogol i deuluoedd allu trafod anghenion eu plentyn. (P6-P7)

Annog teuluoedd i gymryd rhan yn nysgu a datblygiad eu plentyn

Gweithio gyda theuluoedd

Byddai cynnwys y cwrs yn darparu'r wybodaeth i staff allu gweithio gyda theuluoedd fel eu bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd chwarae a dangos sut y gall gynyddu sgiliau a datblygiad plant. Dylai hefyd gwmpasu sut i alluogi teuluoedd i gymryd rhan mewn chwarae. (P8-P10)

Nodi cyfleoedd a rhwystrau posibl

Byddai'r dysgu'n cwmpasu sut y gallai staff ganfod cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan yn nysgu a datblygiad eu plentyn a pha rhwystrau allai fodoli. (P11-12)

Gweithio mewn partneriaeth

Byddai hyn yn edrych ar sut y dylent weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd er mwyn eu helpu i gydnabod y cyfraniadau maent yn eu gwneud i ddysgu a datblygiad eu plentyn. (P13)

Byddai hefyd yn edrych ar sut mae'r tîm yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau dull cyson gan wybod yn glir beth yw eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain ac eraill. (P7)

Adolygu cynnydd plant gyda theuluoedd

Adolygu

Dylai'r dysgu adlewyrchu sut y gall staff gynnwys teuluoedd a phlant wrth adolygu eu cynnydd a sut i ddefnyddio'r wybodaeth i flaengynllunio. (P14-18)

Ymarfer myfyriol

Dylai pob cwrs hyfforddi gynnwys elfen o ymarfer myfyriol. Yn achos y cwrs hwn, byddai'n bwysig bod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu myfyrio ar ôl y cwrs a phwyso a mesur eu perfformiad cyfredol a'r hyn sydd angen ei wella. Dylent ddatblygu sgiliau i allu myfyrio'n barhaus a gwerthuso sut maent wedi rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith a sut mae hyn wedi gwella eu gwaith. (P19)

(2) Beth fyddant yn ei wybod a'i ddeall yn dilyn yr hyfforddiant

Mae yna amrywiaeth eang o wybodaeth a dealltwriaeth yn sail i'r meini prawf perfformiad yn y SGC hon ond mae'r rhai a restrir isod yn benodol ac yn cyfeirio'n arbennig at gynnwys teuluoedd yn addysg gynnar eu plentyn ac felly mae'n rhaid eu defnyddio fel sail i'r rhaglen ddysgu.

K17	Sut i weithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, pobl allweddol ac eraill
K21	Natur ac effaith ffactorau a all effeithio ar iechyd, lles a datblygiad plant a phobl ifanc rydych yn gofalu amdanynt neu'n eu cefnogi
K22	Ffactorau sy'n hyrwyddo iechyd a lles cadarnhaol plant a phobl ifanc
K23	Damcaniaethau sy'n sail i'n dealltwriaeth o ddatblygiad a dysgu plant a'r ffactorau sy'n effeithio arno
K24	Damcaniaethau am ymlyniad a'r effaith ar blant a phobl ifanc
K25	Pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol yn y lleoliad gwaith
K26	Ffactorau a all effeithio'n gadarnhaol neu negyddol ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau iaith a'u datblygiad mewn plant a phobl ifanc
K27	Dulliau a thechnegau o hyrwyddo sgiliau cyfathrebu sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu hanghenion, eu barn a'u dewisiadau
K38	Y newidiadau y mae plant a phobl ifanc yn gallu eu hwynebu
K39	Sut y gall disgwyliadau teuluoedd ar gyfer plant amrywio yn ôl rhyw, crefydd, diwylliant ac ethnigrwydd, cefndir, anghenion a gallu'r plentyn
K40	Sut y gallwch chi ddangos eich bod yn adnabod a gwerthfawrogi strwythurau teuluol amrywiol
K41	Sut y gall teuluoedd gael gafael ar wybodaeth am ddatblygiad plant
K42	Y cysylltiad rhwng disgwyliadau rhieni/teulu ar gyfer eu plant, eu profiadau eu hunain o blentynodod a gwybodaeth am ddatblygiad plant
K43	Sut y gallwch chi roi cefnogaeth gadarnhaol i ymdrechion a chyfraniad rhieni

Canlyniadau Dysgu Disgwyliedig

Gallai canlyniadau dysgu'r rhaglen hyfforddi gynnwys y canlynol:

Ar ddiwedd y rhaglen hyfforddi, dylai ymarferwyr:

- Wybod sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda phlant a theuluoedd
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar y cyfraniad y mae teuluoedd yn ei wneud at ddysgu eu plant
- Gwybod sut i weithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd a theuluoedd i'w cynnwys yn gadarnhaol yn nysgu eu plant
- Gwybod sut i gynnwys teuluoedd wrth adolygu cynnydd eu plant a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Yna, gellir mesur y broses o weithredu'r dysgu hwn yn ymarferol yn dilyn y rhaglen hyfforddi.
(Rhan B)

Rhan B

Drwy ddefnyddio'r meini prawf perfformiad a'r sgiliau a'r wybodaeth fel sail i gynllunio targedau dysgu, mae gan reolwyr a staff gyfrwng i werthuso pa mor llwyddiannus oedd y dysgu ac i fesur perfformiad y staff.

Mae yna amrywiaeth o ddulliau posibl y gellid eu defnyddio i werthuso dysgu'r rhai sy'n cymryd rhan. Mae rhai o'r rhain wedi'u rhestru isod.

Dull Gwerthuso	Sut i'w ddefnyddio	Enghraifft
Gwerthuso canlyniadau hyfforddiant	Ar ddiwedd y rhaglen, mae taflen werthuso yn ddull cyflym o weld a gyflawnodd y rhaglen y canlyniadau dysgu cyffredinol ac a oedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo eu bod wedi dysgu rhywbeth.	Rhai cwestiynau enghreifftiol ar gyfer y rhaglen hon: <i>Ydych chi'n teimlo bod y rhaglen hon wedi'ch dysgu i gyfathrebu'n effeithiol gyda theuluoedd?</i> (P1,P2)
Hunanasesiad gweithiwr (cyn ac ar ôl y rhaglen)	Mae hunanasesiad yn ddull gwerthfawr o werthuso dysgu i weithwyr a chyflogwyr. Gellir ei ddefnyddio cyn ac ar ôl sesiwn hyfforddi ac mae'n rhoi'r cyfle i staff asesu beth yw eu hanghenion dysgu cyffredol yn y maes penodol a phennu rhai amcanion dysgu a gweld sut mae'r rhain wedi gwella ar ôl y rhaglen.	Cyn y rhaglen, efallai mai dysgu mwy am sut i weithio gyda theuluoedd i'w galluogi i gymryd rhan yn chwarae eu plentyn (P8-13) oedd targed dysgu aelod o staff. Gellid gwerthuso hyn ar ôl y rhaglen i weld a yw gwybodaeth yr aelod staff wedi cynyddu ac a yw'n gallu rhoi'r ddamcaniaeth ar waith.
Ymarfer arsylwi	Mae arsylwi yn ffordd ymarferol iawn i gyflogwyr allu gweld a yw staff wedi dysgu rhywbeth ac a ydynt yn dangos yr hyn a ddysgwyd i'r safon briodol.	Gellid arsylwi ar aelod staff yn gweithio gyda theulu a gallai rheolwr asesu sut mae'n cyfathrebu gyda'r teulu hwnnw ac a yw'n gweithio mewn modd agored a chroesawgar a chynhwysol. (P1) Gellid arsylwi i weld a yw'n gallu defnyddio'r technegau a drafodwyd yn y rhaglen hyfforddi.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus	Mae DPP yn rhan hanfodol o ddysgu a datblygiad pob aelod o staff. Ar ôl cwblhau'r cwrs hyfforddi gellid gofyn i staff nodi eu hanghenion DPP a'r dysgu pellach sydd ei angen arnynt o ganlyniad. Mae hyn yn gyfle i'r staff asesu'r hyn y mae angen iddynt ei ddatblygu ymhellach ac yn fodd i'r cyflogwr fesur a gyflawnwyd y dysgu, sut y gwnaed hynny a sut mae hyn wedi effeithio ar staff.	O ganlyniad i'r hyfforddiant, gall aelod o staff nodi ei fod angen dysgu rhagor am effaith newidiadau. (K38) Trwy ddefnyddio'r pecyn DPP (www.cgymru.org.uk/datblygiad-proffesiynol-parhaus) gall yr aelod staff a'r rheolwr gynllunio sut i ddarparu'r hyfforddiant, y cyfleoedd a'r cymorth sydd ei angen a pha mor hyderus yw'r staff ar ôl cwblhau'r hyfforddiant.
Goruchwyllo/Arfarnu	Mae goruchwyllo/arfarnu'n hanfodol er mwyn helpu i staff ennill y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i'w swydd ac yn ddull effeithiol i gyflogwyr asesu perfformiad a dysgu'r staff.	Gall goruchwyllo ystyried yr enghreifftiau uchod a gellid ei ddefnyddio fel dull o fonitro sut mae staff yn datblygu a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gellid ei ddefnyddio fel dull o fesur canfyddiadau'r staff o'r cwrs, yr hyn a ddysgwyd a pha anghenion sydd ganddynt ar gyfer y dyfodol. Gellid ei fonitro'n rheolaidd drwy sesiynau'r dyfodol. Gall rheolwyr ddefnyddio'r meini prawf perfformiad disgwylidig i fesur perfformiad ac i nodi unrhyw bryderon.
Sesiwn holi ac ateb	Gellid ei defnyddio fel ffordd anffurfiol o fesur canfyddiadau'r staff o'r rhaglen ac o gael darlun cyffredinol o'r hyn a ddysgwyd.	Gellid gofyn amryw o gwestiynau i'r staff e.e. Pa rwystrau a allai effeithio ar gyfranogiad y teulu? Beth ellir ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain? (P12)